NEWPORT CITY COUNCIL

CYNGOR DINAS CASNEWYDD

**CAIS AM ORCHMYNION TRAFFIG DROS DRO GAN GYNNWYS CAU FFYRDD DROS DRO**

Darllenwch y canlynol **CYN** llenwi'r ffurflen gais sydd wedi'i hatodi

(a) Dylid nodi na fydd ceisiadau cau ffyrdd yn cael eu caniatáu'n awtomatig a bod eu darpariaeth yn amodol ar y sail nad oes unrhyw ddull diogel arall o weithio o fewn y briffordd yn ymarferol.

(b) NI FYDD ceisiadau am orchmynion dros dro yn cael eu derbyn os nad ydynt ar y ffurflen atodedig, A rhaid i'r ffurflen gael ei llenwi'n LLAWN, gyda'r HOLL wybodaeth a ofynnir amdani wedi'i hatodi.

(c) Mae hepgoriadau neu ffurflenni cais wedi'u llenwi'n anghywir yn debygol o arwain at oedi mewn prosesu ceisiadau, yn ogystal, gellir dychwelyd ffurflenni i'r ymgeisydd.

(ch) Dylech fod yn ymwybodol, ar ôl derbyn yr HOLL wybodaeth y gofynnir amdani, y bydd darparu gorchymyn dros dro yn cymryd rhwng 6 - 8 wythnos.

(d) RHAID i geisiadau sy'n gofyn am orchmynion 'gwahardd' dros dro, gan gynnwys cau ffyrdd dros dro, nodi llwybr amgen addas i'w ddefnyddio.

(dd) Bydd angen gosod arwyddion ar gyfer y llwybr amgen i alluogi unrhyw yrrwr ar un pen o'r ffordd sydd ar gau i gael mynediad i ben arall y ffordd sydd ar gau – i'r naill gyfeiriad (cyfeiriwch at bwynt 15).

(e) Bydd angen i unrhyw lwybr arall a gynigir fod â mesurau rheoli traffig dros dro addas a bydd angen ei gyflwyno ar gynllun 'cynnig rheoli traffig' (cyfeiriwch at bwynt 16).

(f) RHAID i'r llwybr amgen a gynigir ar gyfer cau ffordd fod o safon debyg neu UWCH na'r ffordd gerbydau sy'n cael ei chau h.y. ni fyddai'n dderbyniol cau ffordd 'B' brysur a chreu llwybr amgen drwy ardal breswyl. Dylid ceisio eglurhad ynghylch unrhyw ymholiad ynglŷn â llwybr amgen arfaethedig drwy gysylltu ag Adran Rheoli Traffig Cyngor Dinas Casnewydd (01633) 656656, CYN llenwi'r ffurflen gais sydd ynghlwm a pharatoi'r cynigion rheoli traffig dros dro arfaethedig.

(i) £2613.60 yw'r gost bresennol o ddarparu gorchymyn traffig dros dro. Bydd anfoneb yn cael ei hanfon at 'gyfeiriad y cwmni' a ddarperir ar y ffurflen gais atodedig maes o law.

# **Ffurflen Gais am Orchmynion Traffig Dros Dro**



**Dyddiad heddiw:** ............................................

**(1)** Enw'r person sy'n gwneud cais: ....................................................................

**(2)** Ar ran pa gwmni, (dylech gynnwys cyfeiriad post LLAWN) – *(NODYN **: bydd anfoneb am gostau'n cael ei hanfon i'r cyfeiriad hwn)***:

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

Cod Post: ………………………………………………………….

**(3)** Rhif ffôn:........................................................

**(4)** Cyfeiriad e-bost, os yn berthnasol: ...................

---

**(5)** Enw(au) ffordd/ffyrdd lle gweithredir y gorchymyn/gorchmynion cau dros dro:

……………………………………………………………………………………………..

**(6)** Enw(au) ffordd/ffyrdd y bwriedir eu defnyddio fel llwybr amgen:

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

**(7)** Dyddiad cychwyn arfaethedig y cau: .............................................................................

**(8)** Cyfnod cau arfaethedig: ......................................................................................

**(9)** Disgrifiad o'r gwaith i'w wneud a'r rheswm dros gau'r ffordd dros dro:

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

---

**(10)** Cadarnhewch:

(a) A fydd mynediad diogel i gerddwyr ar gael AR BOB ADEG *ar hyd y briffordd gaeedig* (gan gynnwys mynediad i gadeiriau olwyn a phramiau); ☐

**neu,** **(ticiwch un blwch yn unig)**

(b) Y bydd mynediad diogel i gerddwyr ar gael trwy lwybr wedi'i arwyddo ar wahân (os yn berthnasol, dylid nodi'r llwybr ar wahân hwn yn glir ar y cynllun reoli traffig i'w gyflwyno - gweler ** isod), ☐

(Noder: RHAID darparu mynediad diogel i gerddwyr ar ryw ffurf neu'i gilydd).



**(11)** Mae angen cadarnhad y BYDD mynediad i gerbydau'r gwasanaethau brys:

(i) ar gael *ar unwaith ar bob adeg*
(Hyd yn oed pan fydd gwaith yn cael ei wneud) ☐

**neu**

(ii) ar gael yn gyflym
(Efallai y bydd angen gosod platiau dros tyllau) ☐ **(ticiwch un blwch yn unig)**

**neu**

(iii) *ni* fydd ar gael ☐

Os (iii) uchod, nodwch y rheswm/rhesymau pam na ellir darparu ar gyfer hyn:

………………………………………………………………………………………………………………

---

**(12)** Cadarnhewch:

(i) y bydd y darn o ffordd sydd ar gau yn cael ei ailagor i *bob* traffig ☐
bob nos yn dilyn oriau gwaith yn ystod y dydd
(Efallai y bydd angen ôl-lenwi tyllau)

**neu** **(ticiwch un blwch yn unig)**

(ii) ni ellir ailagor y darn o ffordd sydd ar gau bob
nos ☐

Os (ii) uchod, nodwch y rheswm/rhesymau pam na ellir darparu ar gyfer hyn:
……………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………………………………..

---

**(13)** Enw a rhif ffôn cyswllt <u>YN YSTOD Y DYDD</u> ar gyfer y gwaith arfaethedig:

……………………………………………………………………………………………………………………..

**(14)** Enw a rhif ffôn cyswllt '<u>y tu allan i oriau</u>' ar gyfer y gwaith arfaethedig - (angenrheidiol ar gyfer swyddogion dyletswydd Cyngor Dinas Casnewydd):

……………………………………………………………………………………………………………………..

---

**(15)** Cynlluniau i'w cyflwyno GYDA'R CAIS HWN:

**CHWE** chopi o gynllun addas yn seiliedig ar yr Arolwg Ordnans, gydag allwedd, yn nodi:

(a) y darn o ffordd gaeedig wedi'i farcio yn GOCH ☐ (ticiwch i gadarnhau)

(b) y llwybr amgen yn LAS (cyfeiriwch at nodyn (dd)) ☐ (ticiwch i gadarnhau)

(c) POB enw ffordd perthnasol wedi'i nodi'n GLIR ar y cynllun ☐ (ticiwch i gadarnhau)

(NODER: dylai'r darlun hwn ddangos y wybodaeth uchod YN UNIG (h.y. dim manylion rheoli traffig)

---

**(16)** Cynlluniau rheoli traffig dros dro AR WAHÂN i'w cyflwyno:

Dau gopi o gynllun addas sy'n seiliedig ar yr Arolwg Ordnans yn nodi'n glir drefniadau rheoli traffig arfaethedig:

(a) Pob wyneb arwydd traffig a fydd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r mesurau rheoli traffig dros dro arfaethedig,

(b) Mesuriadau wynebau'r arwyddion, yn berthnasol i draffig sy'n dynesu,

(c) Yr uchder 'x' arfaethedig i'w ddefnyddio ar gyfer llythrennau ar wynebau arwyddion,

(ch) Lliwiau wynebau arwyddion,

(d) Manylion am wynebau arwyddion i'w darparu cyn cau'r ffordd, yn hysbysu gyrwyr bod y ffordd am gael ei chau. Bydd angen i'r arwyddion hyn gynnwys enw cyswllt a rhif ffôn ar gyfer ymholiadau cyhoeddus,

(dd) ****os** yn berthnasol, llwybr cerddwyr ar wahân, wedi'i nodi'n glir (Gweler pwynt 10b uchod).

Unwaith y mae'r cais wedi'i gwblhau yn LLAWN, a chyda chynlluniau wedi'u hatodi fel sy'n ofynnol, anfonwch ef at:

David Partridge
Rheolwr Gwaith Stryd
Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig
Casnewydd
De Cymru
NP20 4UR

e-bost: street.works@newport.gov.uk